



Parlwr Te'r Aelodau

26 Chwefror 2021

Cais am wybodaeth.

Diolch ichi am eich cais, a ddaeth i law ar 21 Ionawr, pan wnaethoch ofyn:

1. *Beth yw'r costau gweithredu ar gyfer Parlwr Te'r Aelodau mewn perthynas â'r cyfnod diweddaraf y mae gwybodaeth ar gael yn ei gylch (nodwch y cyfnod dan sylw hefyd os gwelwch yn dda)? Ai Aelodau'r Senedd yn unig sy'n defnyddio Parlwr Te'r Aelodau? Os nad yw defnydd y parlwr wedi'i gyfyngu i Aelodau, pwy arall sydd â'r hawl i'w ddefnyddio ac a oes ganddynt yr hawl i brynu neu yfed alcohol yno?*
2. *Ar ba amseroedd y mae alcohol ar gael i'w brynu gan yr Aelodau ym Mharlwr Te'r Aelodau? A wnewch chi ddarparu'r rhestr brisiau ar gyfer diodydd alcoholig?*
3. *A oes modd i Aelodau hawlio treuliau mewn perthynas â chostau diodydd alcoholig a gaiff eu prynu ym Mharlwr Te'r Aelodau (neu fannau trwyddedig eraill yn y Senedd) i'w hyfed eu hunain? Os felly, a wnewch chi ddarparu manylion y symiau a gafodd eu hawlio fel treuliau gan Aelodau am (i) yr holl luniaeth ym Mharlwr Te'r Aelodau (ii) yr alcohol a brynwyd ym Mharlwr Te'r Aelodau – ar gyfer 2020 a 2019?*
4. *Ar wahân i Barlwr Te'r Aelodau, a oes unrhyw le arall yn y Senedd lle mae alcohol yn cael ei weini?*

Gweler ein hymateb i'ch cais isod.

1. *Beth yw'r costau gweithredu ar gyfer Parlwr Te'r Aelodau mewn perthynas â'r cyfnod diweddaraf y mae gwybodaeth ar gael yn ei gylch (nodwch y cyfnod dan sylw hefyd os gwelwch yn dda)? Ai Aelodau'r Senedd yn unig sy'n defnyddio Parlwr Te'r Aelodau? Os nad yw defnydd y parlwr wedi'i gyfyngu i Aelodau, pwy arall sydd â'r hawl i'w ddefnyddio ac a oes ganddynt yr hawl i brynu neu yfed alcohol yno?*

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN

Ffôn/Tel: 0300 200 6224

E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

Darperir gwasanaeth Parlwr Te'r Aelodau fel rhan o'r gwasanaethau arlwyo a ddarperir ar ystâd gyfan y Senedd (ffreutur y staff, parlwr te'r Senedd a'r caffi cyhoeddus). Nid ydym yn cadw data ar gyfer Parlwr Te'r Aelodau fel costau gweithredol ar wahân. Roedd costau gwasanaethau arlwyo'r Senedd ar gyfer y flwyddyn weithredol ddiwethaf fel a ganlyn:

2019-20	£346,000
---------	----------

Mae Parlwr Te'r Aelodau ar gael i Aelodau a'u gwesteion yn unig, ond mae eraill yn cael ei ddefnyddio'n achlysurol os yw'r defnydd hwnnw'n cael ei gymeradwyo ymlaen llaw gan y Senedd / Prif Weithredwr.

2. *Ar ba amseroedd y mae alcohol ar gael i'w brynu gan yr Aelodau ym Mharlwr Te'r Aelodau? A wnewch chi ddarparu'r rhestr brisiau ar gyfer diodydd alcoholig?*

Cyflwynodd y Senedd bolisi ym mis Medi 2014 yn nodi na fyddai unrhyw alcohol yn cael ei ddarparu na'i weini ar yr ystâd cyn 18:00.

Pan mae ystâd y Senedd ar agor yn llawn, mae Parlwr Te'r Aelodau yn Nhŷ Hywel ar agor ar ddydd Mawrth a dydd Mercher yn ystod y tymor, a hynny rhwng diwedd y Cyfarfod Llawn a 21:00, er mwyn darparu gwasanaethau i Aelodau, gan gynnwys bwyd, byrbrydau, diodydd ac alcohol. Gall y Parlwr Te fod ar agor ar nos Iau hefyd, yn amodol ar geisiadau a galw am wasanaethau.

Mae'r tariffau ar gyfer diodydd alcoholig fel a ganlyn:

Parlwr Te'r Aelodau – Tariffau	
Cwrw / Lager	£3.55
Cwrw Potel Cymreig	£3.55
Seidr Potel Cymreig	£3.55
Gwin – Gwydraid Mawr	£3.45
Gwin – Gwydraid Bach	£2.90
Gwin y Tŷ – Potel	£14.95
Gwirodydd (sengl)	£2.40
Cymysgwr	£0.95

3. *A oes modd i Aelodau hawlio treuliau mewn perthynas â chostau diodydd alcoholig a gaiff eu prynu ym Mharlwr Te'r Aelodau (neu fannau trwyddedig eraill yn y Senedd) i'w hyfed eu hunain? Os felly, a wnewch chi ddarparu manylion y symiau a*

gafodd eu hawlio fel treuliau gan Aelodau am (i) yr holl luniaeth ym Mharlwr Te'r Aelodau (ii) yr alcohol a brynwyd ym Mharlwr Te'r Aelodau – ar gyfer 2020 a 2019?

Ni all Aelod hawlio treuliau am unrhyw ddiodydd alcoholig, fel y nodir ym mharagraff 4.5.6 o'r **Penderfyniad**.

4. Ar wahân i Barlwr Te'r Aelodau, a oes unrhyw le arall yn y Senedd lle mae alcohol yn cael ei weini?

Heblaw am yr hyn a nodir uchod, dim ond ar gyfer digwyddiadau gyda'r nos y mae alcohol yn cael ei weini ystâd y Senedd, a dim ond os oes angen gwneud hynny, a dim ond ar ôl 18:00. Fel arfer, mae hyn yn golygu gweini gwin gyda bwffes a chiniawau ffurfiol.

Yn gywir,

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth
Senedd Cymru**

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru neu'n ysgrifenedig i

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF